# YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMLLYNFELL
## CWMLLYNFELL WELSH PRIMARY SCHOOL


*Pennaeth/Headteacher*

**Mrs Lynne M. Brier**

***Ffôn/****Tel:* ***(01639) 830630***

Heol y Bryn

Cwmllynfell

**ABERTAWE**

SA9 2FL

***Gwefan/Website:*** www.npted.org/yggdcwmllynfell

***e.bost/e.mail:*** yggcwmllynfell@npt.school


11 Ionawr 2021.

Annwyl Rieni a Gwarchwodwyr / Dear Parents and Carers,

Ysgrifennaf atoch er mwyn eich diweddaru am drefniadau o gwmpas ail agor yr ysgol yn dilyn y cyhoeddiad mwyaf diweddar gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Prif Weinidog wedi cadarnhau y bydd penderfyniadau yn ymwneud ag ysgolion a cholegau yn cyd-fynd ag amserlen adolygu tair wythnos Llywodraeth Cymru ar 29 Ionawr.  Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn parhau i ddysgu o bell a bydd plant gweithwyr allweddol a phlant bregus yn gallu manteisio ar ddarpariaeth ar y safle tan hynny.

Mae'r camau yma'n cael eu cymryd oherwydd bod yr amrywiolyn newydd yn arwain at lawer mwy o heintiau ac yn arwain at fwy o bobl yn mynd yn sâl ac yn mynd i'r ysbyty.Yn ogystal, mae'r penderfyniad yma yn seiliedig ar adroddiad TAG sy'n nodi'n glir ar gyfraniad addysg i'n hymdrechion i ddelio â hyn, nid am fod ysgolion bellach yn fwy anniogel neu'n peri risg uwch i athrawon a phlant.

Oni bai bod cyfraddau trosglwyddo cymunedol yng Nghymru yn gostwng yn sylweddol erbyn 29 Ionawr, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau yn parhau i weithio o bell tan hanner tymor mis Chwefror. Unwaith bydd mwy o wybodaeth am hyn byddaf yn eich diweddaru mor gynted a phosibl.

Bydd gwaith yn cael ei rannu i gyfrif HWB eich plentyn bob bore dydd Llun erbyn 9yb ac bydd rhai gyfarfodydd fesul dosbarthiadau ar Microsoft TEAMS neu Zoom yn digwydd hefyd.

Plis peidiwch oedi i gysylltu a'r ysgol drwy alwad ffôn neu ebost os oes eisiau cymorth neu gefnogaeth oddi wrth aelod o staff. Cymerwch ofal ac edrychwchwch ar ôl eich hunain a'ch teuluoedd.

I write to update you of recent changes regarding the reopening of schools following Welsh Government's latest announcement. The First Minister has confirmed that the decisions that are made on schools and colleges will fall in line with the Welsh Government's three-

week review timetable of 29 January.  This means that learners will continue to learn remotely and vulnerable children and children of critical workers will have access to on-site provision, until then.

This action is being taken because the new variant is far more infections and is leading to increased numbers of people falling ill and being hospitalised. The decision is also based on evidence in the TAG report, which is clear on education's contribution to our efforts to deal with this, not because schools are now more unsafe or pose a higher risk for teachers and children.

Unless the rates of community transmission in Wales reduce significantly by 29 January, most students in schools and colleges will continue to work remotely until the February half term. Once I receive an update, I will immediately inform you.

Work will be shared via your child's HWB account every Monday morning by 9am some class TEAMS or Zoom meetings will also take place.

Please do not hesitate to contact the school via telephone or email if you require any assistance or support from a member of staff. Take care and look after yourselves and your families.

Yr eiddoch yn gywir / Yours sincerely,

*Lynne Brier*